

Y GRŴP RHANDEILIAID STRATEGOL: CYLCH GORCHWYL

Pwrpas

Pwrpas y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol yw sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig y rheini nad ydynt wedi'u cynrychioli mewn rhan arall o'r strwythur rheoli neu ar weithgorau yn:

- cael gwybod sut y bwriedir mynd ati i weithredu *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, ac Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ar gyfer dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* a'u bod yn rhan o'r broses o'u gweithredu
- ymwybodol o'r elfennau sy'n cyd-fynd â'r Fargen Newydd ar gyfer y gweithlu.

Mae'r grŵp yn rhan o gyfres o drefniadau rheoli sy'n ceisio sicrhau y gweithredir yn unol â gweledigaeth ac argymhellion *Dyfodol Llwyddiannus* ac *Addysgu Athrawon Yfory* a bod y Fargen Newydd ar gyfer y gweithlu yn ategu'r weledigaeth honno ac yn helpu'r gweithlu i ddatblygu'r capasiti a'r gallu sydd ei angen.

Rôl y grŵp yw:

- Herio, craffu a rhoi cyngor fel grŵp allanol
- Ymgysylltu mewn ffordd adeiladol gyda'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus a'i phartneriaid cyflenwi i roi cyngor ar ffyrdd o weithio a dulliau o gynllunio, datblygu a chyflawni'r tair elfen ddiwygio – sef y cwricwlwm, hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon a Bargaen Newydd i ddatblygu'r gweithlu yn broffesiynol
- Gweithredu fel 'ffrind beirniadol', gan roi adborth i'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ar gynigion gweithredu a'r camau a gymerir
- Rhoi cyngor i'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch cyfathrebu am ddatblygu a gweithredu
- Helpu Llywodraeth Cymru drwy gyfathrebu negeseuon allweddol mewn ffordd gadarnhaol a helpu i ddatblygu consensws
- Casglu safbwyntiau rhanddeiliaid a'u bwydo'n ôl i Lywodraeth Cymru

Cefndir

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddwyd "*Dyfodol Llwyddiannus*", adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru ac mae'n cynnwys argymhellion pellgyrhaeddol ac uchelgeisiol ar gyfer cwricwlwm newydd yng Nghymru. Mae'r argymhellion yn cwmpasu'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, asesu ac atebolrwydd, ac mae iddynt oblygiadau mawr iawn ar gyfer y gweithlu addysg.

Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddwyd adroddiad John Furlong, "*Addysgu Athrawon Yfory*", sy'n edrych ar yr opsiynau ar gyfer hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru. Mae'n ystyried sut i baratoi athrawon yn well ar gyfer addysgu, gan gynnwys y gofynion sy'n deillio o adolygiad Donaldson.

Mae'r Gweinidog wedi gwneud gweithredu "Bargaen Newydd" ar gyfer y gweithlu yn flaenoriaeth er mwyn gwella ansawdd y cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus sydd ar gael i'r rheini sy'n gweithio mewn ysgolion.

Mae'r 3 elfen hyn yn dibynnu ar ei gilydd ac yn galw am gydgyssylltu a rheoli gofalus.

Yn gydnaws â gofynion Cymwys am Oes a'r nod o ddatblygu system sy'n cymryd camau i'w gwella ei hun, rhaid gweithredu mewn partneriaeth â'r sector addysg.

Aelodaeth

Mae strwythur rheoli'r rhaglen ddiwygio bwysig hon yn cynnwys:

- Grŵp Cynghori Annibynnol
- Bwrdd Newid
- Byrddau ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm a Rhaglen y Gweithlu
- Llawer o weithgorau a grwpiau cyfeirio ar gyfer rhannau penodol o'r gwaith.

Ac eithrio yn achos ambell brif randdeiliad, y bwriad yw osgoi rhoi'r un bobl ar fwy nag un grŵp, a chedwir y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol mor fach â phosibl. Mae hyn yn lleihau'r baich ar unigolion a sefydliadau ac yn golygu bod modd creu grŵp llai sy'n fwy effeithiol.

Gwneir trefniadau eraill i ddod i gysylltiad â rhieni a dysgwyr a holi eu barn nhw.

Gall y Cadeirydd wahodd pobl nad ydynt yn aelodau i gyfarfodydd pan fod angen, lle gallai arbenigedd penodol fod o fudd i waith y grŵp.

Steve Davies fydd cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol.

Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau o'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol

Mae pob aelod yn gyfrifol am ddod â'i sgiliau, ei brofiad a'i arbenigedd i'r Grŵp, gan sicrhau ei fod yn cyflawni'r swyddogaethau a nodir o dan 'Pwrpas' uchod mewn ffordd fuddiol ac adeiladol.

Cyn cyfarfodydd y Grŵp, byddai disgwyl i'r aelodau ddarllen yr holl ddeunyddiau a gyflwynir iddynt eu hystyried, a chyfrannu eu barn a rhannu enghreifftiau priodol o'u profiad i'w trafod gyda'r Grŵp yn amserol ac yn briodol.

Bydd y Grŵp yn pennu ei agenda ei hun ac yn penderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun. Gallai Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol, ar sail asesiad o'r cynnydd a'r risgiau o ran cyflawni, benderfynu dangos mwy o ddiddordeb a chynnig cyngor penodol, manylach ar agweddau ar y gweithredu lle ystyrir eu bod yn hollbwysig i lwyddiant cyffredinol y rhaglen ddiwygio. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd y Bwrdd Newid yn gofyn i aelodau'r Grŵp roi cyngor penodol neu fanwl ar elfennau o'r gwaith diwygio lle byddai eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn helpu i lywio'r camau a gymerir neu oresgyn problemau penodol.

Caiff yr aelodau eu henwi. Os na fydd aelod yn gallu mynd i gyfarfod, caiff ofyn i rywun arall sydd ar yr un lefel neu sydd â'r un profiad fynd yn ei le. Bydd yn rhaid trefnu hynny ymlaen llaw gyda'r Cadeirydd neu'r ysgrifenyddiaeth.

Adrodd

Bydd y Cadeirydd yn darparu adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Bwrdd Newid a Bwrdd Rhaglen Cwricwlwm am Oes – ar ôl pob cyfarfod o leiaf. Gallai'r rhain fod ar lafar neu yn ysgrifenedig. Caiff cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol hefyd eu rhannu gyda'r ddau fwrdd hyn.

Pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd

Bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol yn cwrdd 3 gwaith y flwyddyn yn y Gogledd a'r De am yn ail.

Cymorth gweinyddol

Bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol yn derbyn cymorth gweinyddol gan dîm Rheoli Rhaglen Gweithredu'r Adolygiad o'r Cwricwlwm.